# CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 23 Mai 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Stewart** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Price** |
| **Cynghorwyr**: | J.Harvey a/ac J.Hurley |
| **Parc Cenedlaethol Cynrychiolwyr:** | A.Edwards a/ac D.Clements |
| **Aelod Cyfetholedig:** | E.Evans, J.Hardisty a/ac P.Boyle |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | M.Nicholls, W.Walters, W.Bramble, G.Jones, T.Jones, C.Griffiths, C.Moore, S.Aldred-Jones, K.Tillman, S.Davies, R.Lewis, M.Wade a/ac C.Plowman |
| **Cynghorwyr Allanol:** | L.White |

---

## 1. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD AR GYFER CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU

**PENDERFYNWYD:**

Penodi'r Cyng. Rob Stewart (Cyngor Sir Abertawe) yn Gadeirydd a phenodi'r Cyng. Darren Price (Cyngor Sir Gâr) yn Is-Gadeirydd Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

## 2. CROESO A CHYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Chwefror 2024 fel cofnod cywir.

5. **AIL-GYFANSODDIAD CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG DE-ORLLEWIN CYMRU**

Darparwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd â'r nod o ailgyfansoddi Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru, a oedd yn cynnwys nodi'r trefniadau gweinyddol a llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ddinesig sydd ar ddod.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru at y cynigion yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, a fyddai'n ffurfio rhan o'r ailgyfansoddiad.

Nodwyd bod tymor Cadeirydd presennol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe'n dod i ben, a bod Cadeirydd newydd wedi'i benodi. Byddai angen adlewyrchu'r newid hwn yn y ddogfennaeth sy'n ymwneud ag Aelodau Cyfetholedig Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad aelodau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig a nodwyd ym mharagraff 5 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cymeradwyo cyfetholiad aelodau'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer pob mater (ac eithrio cynllunio strategol o ystyried eu statws pleidleisio) heb bleidlais ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

Cymeradwyo creu'r is-bwyllgorau a nodwyd ym mharagraff 9 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, a'r cynrychiolwyr arfaethedig a benodwyd i'r is-bwyllgorau a nodir ym mharagraff 9 a 10 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cymeradwyo cyfetholiad aelodau o Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i Is-bwyllgorau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer pob mater
(ac eithrio ar gyfer cynllunio strategol o ystyried eu statws pleidleisio) heb bleidlais ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

Cymeradwyo sefydlu'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fel y nodir ym mharagraffau 14-19 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cymeradwyo’r penderfyniad i ddynodi Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot fel Pwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

Cymeradwyo sefydlu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru fel y nodir ym mharagraffau 23-29 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cymeradwyo'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru a'i bwyllgorau cysylltiedig fel y nodir ym mharagraff 30 o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Cymeradwyo adnewyddu penodiad aelodau cyfetholedig, a nodwyd ym
mharagraff 32 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

Cymeradwyo adnewyddu penodiad yr ymgynghorwyr, a nodwyd ym mharagraff 34 o'r adroddiad a ddosbarthwyd, ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/2025.

## 6. <u>CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU - Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN</u>

Cafodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen waith mewn perthynas â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh).

Atgoffwyd y Pwyllgor fod y Cynllun Gweithredu a'r Achos dros Newid wedi cael eu cynhyrchu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru; y cam nesaf oedd cynhyrchu drafft cychwynnol y CTRh.

Esboniwyd bod Swyddogion, yn ystod camau cynnar y gwaith, wedi mynegi pryderon am yr amserlenni a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch datblygu'r CTRh; diben yr adroddiad hwn oedd amlygu'r newid yn yr amserlenni o gynhyrchu drafft cychwynnol y CTRh.

Nododd swyddogion fod yr amserlen gychwynnol yn nodi bod angen i Gyd-bwyllgorau Corfforedig gyflwyno'u drafftiau cyntaf i Lywodraeth

Cymru erbyn 29 Mai 2024; gyda'r drafft terfynol yn cael ei gyflwyno erbyn 31 Hydref 2024. Hysbyswyd Aelodau y byddai'r amserlen ddiwygiedig yn cynnwys cyfnod ymgynghori ym mis Mai/Mehefin 2024, a diweddariad i'r polisi a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn mis Gorffennaf 2024. Ychwanegwyd bod swyddogion yn gweithio tuag at yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflwyno'r drafft terfynol i Lywodraeth Cymru (31 Hydref 2024) ar hyn o bryd.

Soniwyd y gallai rhai o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gael eu newid ychydig eto, oherwydd cyhoeddiad yr Etholiad Cyffredinol ar 4 Gorffennaf.

Diolchwyd i swyddogion am eu gwaith parhaus wrth ddatblygu a llunio'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo diwygiad i'r rhaglen waith ar gyfer cam drafft cychwynnol Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

7. **<u>Y DIWEDDARAF AM SAFONAU'R GYMRAEG</u>**

Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Amlygwyd bod Swyddogion wedi derbyn yr Hysbysiad Cydymffurfio oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg ar 24 Ebrill 2024, gydag eithriadau o ddau safon a nodwyd fel a ganlyn:

- WLS 145 Hyrwyddo – Llunio, a chyhoeddi ar wefan y sefydliad, strategaeth 5 mlynedd sy’n esbonio sut mae Cydbwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru'n bwriadu mynd ati i hybu’r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal

- WLS 146 Hyrwyddo – Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145, rhaid asesu a chyhoeddi canfyddiadau'r asesiad ar y wefan.

Gofynnwyd a allai'r Cyd-bwyllgor Corfforedig dderbyn diweddariadau ynghylch datblygiad hyrwyddo'r Gymraeg. Byddai Prif Weithredwr y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gofyn am gyngor ynghylch ai'r cyfarfod hwn fyddai'r fforwm priodol, gan fod agweddau ehangach ar

hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Rhanbarth yn cael eu dirprwyo i sefydliadau eraill o ran cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nodwyd y byddai adroddiadau diweddaru yn y dyfodol yn cael eu darparu i'r Pwyllgor mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg y Cydbwyllgor Corfforedig.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Dirprwyo'r Prif Weithredwr i adolygu a gweithredu'r Hysbysiad Cydymffurfio i ddangos derbyn Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**

Mae’r dudalen hon yn fwriadol wag